

## Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Festri Tŷ Hên ar nos Lun yr 16eg o Fedi 2019 am 8.00yh.

**Cynghorwyr yn bresennol:** Ambrose Lewis (Cadeirydd), Arwyn Jones, Andrew Jones, John Phillips, Linda Davies, Alyson Harries, Dyfed Davies & Derrick Harries.

**Yn cymryd y Cofnodion:** Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Eirian Howells, Ann Sillars & Cynghorydd Sir Jean Lewis
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:** Agorwyd y cyfarfod gan Ambrose Lewis a diolchodd i bawb am fynychu â nododd ei gydymdeimladau i Dyfed Davies & Eirian Howells ar eu profedigaethau diweddar.
3. **Datgan Buddiannau:**  
Nododd Mr Arwyn Jones diddordeb mewn eitem 6.8 o'r agenda.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**  
Darllenwyd cofnodion cyfarfod yr 8fed o Orffennaf 2019, cytunwyd a'i llofnodwyd fel cofnod cywir.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
  - Ronanny – roedd Mr Tony Williams o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi bod i weld yr achos ac mi'r oedd yn bwriadu galw gyda'r preswylwyr i drafod y mater a diweddarau y clerc maes o law.
  - Cyflwymder traffid drwy Trelech – mi'r oedd Mr Andrew Morgan o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi bod allan ac mi fyddai 'cownteri' yn cael eu gosod yn y pentref fis Hyfref/Tachwedd. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno wdi dadansoddi y data. Nid oedd y cais am lwybrau diogel l'r Ysgol wedi bod yn llwyddiannus.
  - Cysgodfan Bws – roedd Mr Tony Williams o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi ebostio'r clerc i ddweud dylai'r gwaith atgyweirio cael ei wneud yn yr wythnosau nesaf.
  - Clunfelyn – Mi'r oedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi darparu cynlluniau o'r llwybrau cyhoeddus o amgylch Clunfelyn ac mi'r oedd y Cynghorwyr wedi cerdded y llwybr ar y 27ain o Orffennaf gan nodi y gwaith atgyweirio/clirio oedd ei angen. Roedd caniatad wedi ei dderbyn wrth y perchnogion i ymafael a'r gwaith ac mi'r oedd y gwaith wedi dechrau.
  - Mi'r oedd y Cynghorwyr wedi cwblhau y ffurflennu Datgan Buddiannau a'u dychwelyd i'r clerc.
  - Hyfforddiant – Mi'r oedd y clerc wedi mynychu'r hyfforddiant darparwyd dan y Cyngor Sir ac mi'r oedd y pecynnau hyfforddi wedi eu dosbarthu l'r Cynghorwyr.

### **6. Gohebiaeth**

6.1) Mi'r oedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi danfon ebost ynghylch polyn pren diffygiol yn Felindre. Mi'r oedd 'Western Power Distribution' wedi archwilio y polion yn yr ardal ac wedi cael y polyn a oedd yn dal golau yn Felindre mewn peryg o gwmpo. Amcan prisiodd WPD y Gawith o adnewyddu y polyn yn £4,686.42 yn cynnwys TAW. Mi'r oedd y Cyngorydd Cymuned Lleol wedi trafod gyda'r cymydog a oedd angen y golau ac wedi dod i'r casgliad nad oedd ei angen felly fe cynigwyd i'w dynnu i lawr. Cytunwyd i wneud hyn.

6.2) Mi'r oedd Archwilwyr Cymru wedi assesu y cyfrifon ac wedi eu darganfod yn gywir.

6.3) Mi'r oedd anfoneb wedi dod wrth Thomas Fattorini Ltd am £98.17 ac fe gytunwyd i'w dalu.

6.4) Roedd adnewyddiad yr yswiriant wedi dod wrth Zurich Municipal am £290.86 ac fe cytunwyd i'w dalu.

- 6.5) Roedd y Cyngor Sir wedi danfon epost yn nodi y cynllun arfaethedig i newid dalgylch y Ward Sirol i gynnwys Merthyr a Llannewydd.
- 6.6) Darllewnwyd y gwahoddiad roedd wedi ei dderbyn wrth Maer Cyngor Tref Caerfyrddini fynychu digwyddiad codi'r Faner Heddwch Byd.
- 6.7) Dosbarthwyd y cylchlythyr roedd wedi ei dderbyn wrth Eluned Morgan AC.
- 6.8) Roedd yr epost wrth BT yn nodi'r bwriad i dynnu'r ciosg ffôn o Penybont wedi ai ddanfôn ymlaen i'r Cynghorwyr.
- 6.9) Roedd cais cynllunio wedi ei ebostio ymlaen i'r Cynghorwyr parthed codi polyn Gwasanaethau Brys ESN40145.
- 6.10) Roedd dau epost wedi eu derbyn yn cadarnhau lleoliadau llwybrau cyhoeddus ym Mhenybont ac roeddent wedi cael eu danfon ymlaen i'r Cynghorwyr.
- 6.11) Roedd epost Tynged yr Iath wedi ei ddanfôn ymlaen i'r Cynghorwyr.
- 6.12) Dosbarthwyd epost Ie Cymru i bawb yn y cyfarfod.
- 6.13) Cafodd y llythyr wrth y Cyngor Sir yn apelio am Glercod Gorsafoedd pleidleisio ei ddarllen ac oes roedd gan unrhywun ddiddordeb, gallent gysylltu gyda'r clerc am y ffurflen gais.

## 7. Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £432.90

Dosbarthwyd a trafodwyd copi o'r adroddiad cyllideb yn erbyn gwariant am y 6 mis olaf.

## 8. Unrhyw Fater Arall

- Codwyd pryder ynghlyn a'r gordyfiant ar y safle newydd o dai yn Trelech a gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda pherchennog y seft i'w glirio.
- Roedd Mr Tony Williams o'r Cyngor Sir wedi bod i weld cyflwr gawel yr heol rhwng Glaspant a Dinas yn Penybont ac hefyd y goeden beryglus. Roedd peth gwaith atgyweirio wedi cael ei wneud i'r heol ac roeddent yn aros am dymchwel y goeden.
- Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda adran priffyrdd y Cyngor Sir ynghlyn a llwyn ger groesffordd Dyffryn a oedd yn amharu ar weledigaeth modurwyr.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a terfynwyd y cyfarfod am 9.00yh.